

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Fedi 2018

Presennol - Gwawr Jones Cadeirydd, Marion Bettenev, Janet Charlton , Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriadau -- Gareth Wynne, Nick Corney, Elisabeth Roberts.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 9fed Orffennaf 2018

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr Heddlu'n bresennol

[1.1] Ffordd yn Arwain i fyny heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i lorïau

Y clerch i gysylltu gyda pheiriannydd Cyngor BS Conwy i ofyn iddo alw ym Moduron Betws i drafod materion traffig.

[1.2] Materion Traffig Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Nodwyd bod trefniadau i gyflwyno astudiaeth dichonoldeb erbyn diwedd Medi gan Gyngor BS Conwy.

Nodwyd bod trefniadau i gyflwyno astudiaeth dichonoldeb

[1.3] Carthion yn Rhedeg i'r Afon Llugwy

Dywedodd y clerch bod Dŵr Cymru wedi archebu arwyddion gyda'r bwriad o hysbysu rhif ffôn rhag ofn digwyddiad arall o'r fath. Mae'r Swyddog Addysg hefyd yn gwneud trefniadau i blant ysgol ymweld â'r safle.

[1.4] Siop Climber & Rambler Ffordd Caergybi

Nodwyd nad oedd ateb gan berchennog y siop, na chwaith oddiwrth y Parc Cenedlaethol ynglun a'r golwg truenus sydd i flaen y siop ar fin priffordd priffordd yr A5

Y brif Agenda

[1.5] Materion Cynllunio

[a] Estyniad ac addasiadau i dri tŷ amlfeddiannaeth. Stryd y Felin, Betws-y-Coed

[b] Newid defnydd canopi cynfas i alwminiwm gyda sêrn sy'n sefyll. Siop Goffi Alpine, Stryd yr Orsaf, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod.

[c] Nodwyd y wybodaeth gan y Pensaer Diane Williams i gynigion ar gyfer Gwesty ac adeilad Gweithgareddau yn Surf Snowdonia, Dolgarrog.

[1.6] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2018

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Awst 2018.

[1.7] Ciosg Coch

Dywedodd y clerc bod y ciosg coch wedi ei osod yn ei le yn gyfagos a maes parcio Ffordd yr Orsaf a bod angen ystyried pa fath o gynnwys i osod o fewn y ciosg. Penderfynwyd i'r clerc wneud ymholiad a oedd diddordeb gan y Parc Cenedlaethol

[1.8] Arolwg y Pentref

Cyfeiriodd y clerc at yr arolwg a wnaed yn y pentref yn ddiweddar gan y Cyng. Elisabeth Roberts

[a] Mae bwriad i adnewyddu arwyddion bysedd [twristiaeth] os bydd cais am grant yn llwyddiannus.

[b] Mae sylw swyddogion coed Cyngor BS Conwy a'r Parc Cenedlaethol wedi ei wneud i'r iddew trwm ar y coed yn Cae Lan.

[c] Mae cais wedi ei wneud i Gyngor BS Conwy i dorri'r gwair ar ymylon Cae Llan ar yr un pryd a gweddiill y cae. Bydd y Cyng. Elisabeth Roberts yn cadw llygad i ofalu bod y gwaith yn cael ei wneud.

[d] Mae'r gwter sydd wedi tagu a'r Bont y Pair i gael ei glanhau gan y Cyngor Sir.

[1.9] Cyflog y Clerc

Penderfynwyd cysylltu cyflog y clerc yn unol â thaliadau NALC pwynt LC1 yn gymharol i 25awr yr wythnos o ddechrau Medi 2018.

[2] Gwaith Diogelwch Llynnoedd Goddionduon, Ty'n y Mynydd, Cyffty a Sarnau

Nodwyd bod cwmni adeiladwyr Dawnus wedi ei penodi i ymgymryd â'r gwaith a fydd yn parhau ymlaen i ddiwedd y flwyddyn.

[2.1] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Dogfen Ymgynghorol Parc Cenedlaethol Eryri

[b] Adroddiad Blynyddol Grŵp Cynefin.

Cadeirydd\_\_\_\_\_